# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Cefnfaes a drwy Zoom
**Nos Iau 27 Mehefin 2024 am 7 o'r gloch**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Mary Jones
Y Cynghorydd Catrin Wager

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Linda Brown
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Dyfrig Jones

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Walter Williams
Y Cynghorydd Michael Williams
Y Cynghorydd Huw Jones
Y Cynghorydd Paul Rowlinson

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. E Mary Jones.

**Ymddiheuriadau** – Y Cyng. Rheinallt Puw, Einir Williams, Catrin Wager, a Bleddyn Williams.

**2. Datgan Diddordeb**
Dim.

**3. Materion Brys**
**3.1 Arwydd Ffordd Pant** – Adroddodd y Cyng. Neville Hughes bod arwydd 'Pant Road' ar dalcen tŷ 17 Ffordd Pant wedi diflannu. Cytunwyd bydd y Cynghorydd yn gofyn am ganiatâd gan berchnogion y tŷ i osod un newydd yno. Y Clerc i archebu arwydd newydd.
**3.2 Arwyddion Lon Pab** - Nodwyd fod yr arwyddion yma dal heb ei osod, y Clerc i drefnu.
**3.3 Y Mabinogion** – Cytunodd y Cyngor pa mor braf oedd i weld y Mabinogion yn ôl ar agor, ac yn falch iawn o'r arwyddion newydd dwy-ieithog. Cytunwyd bydd y Clerc yn ysgrifennu llythyr i ddiolch i'r perchnogion newydd ac i ddymuno yn dda ar ei menter newydd.
**3.4 Toriadau gwair** – Adroddodd y Clerc fod y Cyng. Rheinallt Puw a hithau wedi cyfarfod gyda Geraint Jones, Cyngor Gwynedd i drafod safon gwael y toriadau gwair yn yr ardal, cytunwyd bydd y swyddog yn cadw llygaid ac ar y safleoedd pam fydd y toriad nesaf yn cael ei gwblhau.
**3.5 Cysgodfan Bws ger Pont Tŵr** – Adroddwyd fod y Clerc yn chwilio am brisiau ar gyfer gwydr newydd.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mai 2024.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1 Maes parcio ger y Sior, Carneddi - Cais i ail beintio'r llinellau –** Adroddwyd fod y gwaith bellach ar rhaglen waith Cyngor Gwynedd – ar y gweill.
**5.2 Llwybr y Llaw Feddyg, Parc Meurig -** Y les gwreiddiol angen ei adnewyddu, nid yw'r les presennol yn addas. Adroddwyd fod y Clerc wedi cael sgwrs gyda'r tirfeddiannwr a chytunwyd y byddent yn creu les newydd – ar y gweill.
**5.3 Glanhau'r Gofeb** - Adroddodd y Clerc fod yr elusen o Berkshire wedi bod rhy brysur i gwblhau'r gwaith glanhau fel yr addawyd. Cadarnhawyd ei bod wedi cysylltu â chwmni o Bwllheli i ofyn am bris - ar y gweill.
**5.4 Diffyg Plismona** – Cadarnhawyd fod y Clerc wedi danfon llythyr o gŵyn at Brif Arolygydd Heddlu Gogledd Gwynedd ac yn disgwyl am ymateb – ar y gweill.
**5.5 Datblygiad Cae Gas -** Adroddwyd fod y gwaith adeiladu wedi ei ohirio gan fod yna broblemau wedi codi wrth geisio cwblhau cytundeb hedo'r cwmnïau gwasanaethu. Nid yw'r problemau yn rhai beichus, ond mae wedi bod yn broses araf iawn. Derbyniwyd cadarnhad fydd y gwaith yn gobeithio ail gychwyn dim hwyrach na mis Awst. Er gwaethaf yr oedi, maent yn hyderus bydd y tai i gyd wedi cwblhau cyn diwedd y flwyddyn.
**5.6 Cysgodfan Bws ger Maes Bleddyn –** Adroddodd y Clerc ei bod yn cyfarfod gyda Dafydd Wheldon Hughes o Gyngor Gwynedd wythnos nesaf, i drafod y posibilrwydd o osod cysgodfan bws – ar y gweill.

**6. Yswiriant y Cyngor**
Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd adnewyddu'r yswiriant gyda Zurich.

**7. Bont Ogwen**
Derbyniwyd e-bost gan y Cyng. Bleddyn Williams yn nodi fod argae ger Pont Ogwen wedi torri a bod y lefel dŵr wedi gostwng. Penderfynwyd bydd y Clerc yn hysbysu Cyfoeth Naturiol Cymru.

**8. Maes Parcio Gerlan**
Adroddwyd fod cyfreithiwr y Cyngor yn cael trafferth cysylltu â chyfreithiwr perchennog y tir - ar y gweill.

**9. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Mehefin 2024'
**9.1** Cyngor Gwynedd/Partneriaeth Ogwen – Bwrdd Dehongli ger Plas Ffrancon – Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd fod y Cyngor yn hapus i gymryd cyfrifoldeb dros y Bwrdd Dehongli arfaethedig – y Clerc i drefnu.

**10. Penderfyniadau a Cheisiadau Cynllunio**
__Penderfyniadau__

| | |
|---|---|
| **C23/0207/13/CR**<br>Kings Head, Stryd Fawr, Bethesda | Addasiadau mewnol<br>**Penderfyniad:** Ar y gweill. |
| **C23/0969/13/LL**<br>Natwest Bank, 13 Stryd Fawr, Bethesda | Addasu'n fewnol adeilad presennol o ddefnydd busnes ar y llawr gwaelod gyda 3 fflat preswyl i ddefnydd busnes ar y llawr gwaelod gyda 6 fflat preswyl. |

**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau.

**C24/0138/13/LL**
1 Yr Ardd Fawr, Ffordd Gerlan, Gerlan

Codi annedd deuluol
**Penderfyniad:** ar y gweill.

**C24/0252/13/LL**
Llys Dafydd, Stryd Fawr, Bethesda

Gosod mainc ddur a bwrdd dehongli
**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau.

**C24/0390/13/AC**
Spar Stores Stryd Fawr, Bethesda

Diwygiad i amod 2 o ganiatâd cynllunio C23/0547/13/LL ar gyfer creu man manwerthu a chanolfan dreftadaeth i ailddefnyddio adeilad SPAR a chodi estyniad tri llawr, er galluogi newidiadau i'r cynlluniau a gymeradwywyd i gynnwys gosod pwmp gwres ffynhonnell aer a phaneli ffotofoltaig, ac ychwanegu mwy o reiliau diogelwch.
**Penderfyniad:** ar y gweill.

**<u>Ceisiadau</u>**

**C24/0454/13/DT**
35 Ffordd Llanllechid, Rachub,

Estyniad unllawr cefn arfaethedig
**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

**C24/0445/13/TC**
Dŵr Cymru, Gwaith Trin Carffosiaeth, Ffordd Bangor,

Tystysgrif cyfreithlondeb ar gyfer datblygiad arfaethedig o fewn ardal weithredol GTDG Bethesda yn cynnwys offer uwchben y ddaear a seilwaith cysylltiedig (gan gynnwys set atgyfnerthu dŵr golchi; Trawsnewidydd; Gorsaf bwmpio dychwelyd hylif; gorsaf bwmpio x2; a thanc dal slwtsh); cynllun ffordd newydd gyda llwybrau cerdded; a seilwaith o dan y ddaear (gan gynnwys tyllau archwilio; siambrau x2; piblinellau; dwythellau; prif gyflenwad ymgodol gorsaf bwmpio a ffynhonnau gwlyb gyda phympiau; prif gyflenwad dŵr; a chyflenwad trydan)
**Penderfyniad:** Dim sylw.

**C24/0444/13/LL**
Dŵr Cymru, Gwaith Trin Carffosiaeth Ffordd Bangor.

Cynnig i osod ciosg panel dosbarthu a chiosg canolfan rheoli moduron
**Penderfyniad:** Dim sylw.

**C24/0452/21/CC**

Caravan Park & Country Club, Ogwen Bank,

Gwaith i goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed
**Penderfyniad:** Dim sylw.

## 11. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Dŵr Cymru | Cyflenwad dŵr Gorffwysfan | £146.27 |
| Dŵr Cymru | Cyflenwad dŵr Llys Dafydd | £38.77 |
| Scottish Power | Nwy Gorffwysfan | £48.72 |
| John Wyn Jones | Cyflog Mehefin | £396.20 |
| CThEM | TWE Mehefin | £99.20 |
| Colin Jackson | Torri llwybrau | £2115.25 |
| Colin Jackson | Torri llwybr ychwanegol | £100.00 |
| T Shaw | Torri gwair Coetmor | £420.00 |

## 12. Crynodeb Llais Ogwan

Penderfynwyd cynnwys yr isod:

- Datblygiad Cae Gas
- Llys Dafydd
- Cysgodfan Bws ger Pont Twr
- Bwrdd Dehongli ger Plas Ffrancon